# Ysgol Saesneg, Cyfathrebu a Athroniaeth

**Israddedig**

Rhaglenni Gradd 2025



CARDIFF UNIVERSITY
PRIFYSGOL CAERDYDD

# Y 100 uchaf

yn y byd am iaith a llenyddiaeth Saesneg

Rhestr QS o Brifysgolion Gorau'r Byd yn ôl Pwnc 2024

## Wrth ymuno â ni, byddwch yn dod yn rhan o amgylchedd bywiog a deallus

ac o gymuned dynamig a chyfeillgar. Ystyriwn ein rôl fel un sy'n eich galluogi yn eich dysgu drwy ddarparu addysgu arbenigol mewn diwylliant cyfeillgar, cefnogol sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr.

## Rydym yn gwerthfawrogi

ac yn dathlu chwilfrydedd, trafodaeth wybodus, dadansoddi beirniadol a meddwl yn greadigol.

## Mae elfen o hyblygrwydd

yn ein rhaglenni gradd sy'n eich galluogi i lunio eich gradd i weddu i'ch diddordebau a'ch cryfderau wrth ddarparu'r wybodaeth graidd sydd ei hangen arnoch.

## Mae ein haddysgu

yn seiliedig ar ymchwil sy'n arwain y byd. Rydym yn dwyn ynghyd y lefelau uchaf o ysgolheictod gyda hanes o arloesi ac ymgysylltu, sydd wedi helpu i ddiffinio ein meysydd a sicrhau newidiadau y tu hwnt i'r byd academaidd.

## Mae ein cymorth gyrfaoedd

a chyflogadwyedd yn rhoi cyfle i chi ddatblygu eich profiad a'ch hunaniaeth broffesiynol. Pan fyddwch yn graddio, byddwch yn barod i lwyddo yn eich dewis faes, gyda'r sgiliau a'r hyder i gyrraedd eich llawn botensial.

## Ein nod yw eich ysbrydoli

ac edrychwn ymlaen at eich croesawu i'n cymuned.

# Ein Rhaglenni Gradd

Rydym yn cynnig rhaglenni mewn iaith a ieithyddiaeth Saesneg, llenyddiaeth Saesneg, ysgrifennu creadigol ac athroniaeth, yn ogystal ag amrywiaeth o gyfuniadau eraill a graddau cydanrhydedd.

Mae pob un yn cynnwys gwerthfawrogiad dwys o iaith, pa mor gymhleth ydyw, a'r gallu i gyfleu syniadau a theimladau, ac i greu bydoedd i fyw ynddynt. Rydym hefyd yn agor y byd i chi gyda chyfleoedd i ymestyn eich rhaglen a threulio blwyddyn yn astudio dramor.

Ewch i'n gwefan am ddisgrifiadau manwl, gwybodaeth am fodiwlau a holl ofynion mynediad ein rhaglenni.

**O'r eiliad yr ymwelais â Chaerdydd, roeddwn i'n gwybod y byddai'n ddinas wych i fyw ynddi**, nid yn unig oherwydd bod darlithwyr y brifysgol mor angerddol am eu meysydd astudio, ond hefyd oherwydd bod y ddinas gyfan yn teimlo fel lle diogel a bywiog i fyw ynddo fel myfyriwr. Rhan orau fy astudiaethau oedd y cyfle i ddatblygu fy niddordebau a dewis modiwlau a oedd yn caniatáu imi ymchwilio i'r pethau oedd o ddiddordeb mawr i mi.

**Victoria Witts,**
**Iaith a Llenyddiaeth Saesneg (BA 2022)**



# Iaith Saesneg ac Ieithyddiaeth BA

Sut mae eich defnydd o iaith yn mynegi pwy ydych chi a phwy rydych chi eisiau bod? Pam mae babanod yn dysgu iaith yn hawdd tra bod oedolion yn cael trafferth? Sut a pham mae iaith yn newid? Byddwch yn cael y cyfle i archwilio cwestiynau fel y rhain a byddwch yn ennill dealltwriaeth ddofn o sut mae cyfathrebu ieithyddol yn gweithio yn seiliedig ar ddefnydd o Saesneg ac enghreifftiau cymharol o ystod eang o ieithoedd eraill.

Gyda'n gilydd, byddwn yn edrych ar sut mae iaith yn cael ei strwythuro a'i defnyddio yn y byd cymdeithasol. Mae dwy agwedd allweddol i wneud hyn. Yn gyntaf, gwybodaeth am y berthynas rhwng strwythurau ieithyddol, hunaniaeth unigol, a threfniadaeth gymdeithasol. Yn ail, caffael sgiliau ar gyfer dadansoddi iaith, nid yn unig fel y gellir ei defnyddio ond fel y mae'n cael ei defnyddio yn ei chyd-destun.

Byddwch yn dysgu sut mae iaith yn gweithio a sut i ddefnyddio iaith i gyfathrebu. Bydd y pynciau hyn yn eich arfogi i ddarganfod sut i lywio'r defnydd o iaith ac ieithyddiaeth yn y byd modern heddiw a'r berthynas rhwng iaith a chymdeithas.

# Iaith a Llenyddiaeth Saesneg BA

Wrth gyfuno astudiaethau mewn iaith a llenyddiaeth Saesneg, byddwch yn dilyn rhaglen Cydanrhydedd a fydd yn rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth i chi ddeall, dadansoddi a chyfleu atebion ar gyfer y problemau cymhleth sy'n wynebu cymdeithas heddiw.

Byddwch yn edrych ar sut mae iaith yn cael ei strwythuro a'i defnyddio yn y byd cymdeithasol. Mae dwy agwedd allweddol i wneud hyn. Yn gyntaf, gwybodaeth am y berthynas rhwng strwythurau ieithyddol, hunaniaeth unigol, a threfniadaeth gymdeithasol. Yn ail, caffael sgiliau ar gyfer dadansoddi iaith, nid yn unig fel y gellir ei defnyddio ond fel y mae'n cael ei defnyddio yn ei chyd-destun.

Byddwch yn astudio llenyddiaeth o wahanol gyfnodau a diwylliannau, ac ar draws yr ystod o brif genres llenyddol.

Ni chewch eich cyfyngu i astudio'r gair printiedig: mae'r cysylltiadau rhwng llenyddiaeth a ffilm, celf, hanes, technoleg, iaith, a bywyd bob dydd yn ein hudo, ac mae ein haddysgu yn adlewyrchu'r diddordebau hyn.

Byddwch yn graddio gydag ystod o sgiliau proffesiynol, gan gynnwys cydweithio, cyfathrebu, a meddwl yn feirniadol. Byddwch yn ymwybodol o'r heriau moesegol, cymdeithasol ac ieithyddol sy'n wynebu cymdeithas a diwydiant cyfoes, a bydd gennych y syniadau a'r hyder sydd eu hangen i'w datrys.



**Dwi wedi cael amser anhygoel yn fyfyriwr yng Nghaerdydd.** Pan ddes i yma, ges i fyfyriwr sy'n mentora i fy helpu i werthfawrogi Caerdydd a deall sut brofiad oedd bod yn fyfyriwr prifysgol yma.

**Grayson Diamond,**
**Llenyddiaeth Saesneg ac Athroniaeth BA**



# Llenyddiaeth Saesneg BA

Our dynamic, flexible degree programme allows you to study literature from different
Mae ein rhaglen radd ddeinamig a hyblyg yn eich galluogi i astudio llenyddiaeth o wahanol gyfnodau a diwylliannau, ac ar draws yr ystod o brif genres llenyddol.

Ni chewch eich cyfyngu i astudio'r gair printiedig: mae'r cysylltiadau rhwng llenyddiaeth a ffilm, celf, hanes, technoleg, iaith, a bywyd bob dydd yn ein hudo, ac mae ein haddysgu yn adlewyrchu'r diddordebau hyn. Byddwch yn dysgu sut mae llenyddiaeth yn mynd i'r afael â phryderon cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd gyda'r nod o greu byd gwell, mwy cynhwysol a datblygu atebion cynaliadwy ar gyfer dyfodol y blaned.

Byddwch yn cael eich addysgu gan ymchwilwyr blaenllaw ym maes llenyddiaeth Saesneg mewn modiwlau sy'n adlewyrchu syniadau diweddaraf y ddisgyblaeth. Mae'r ffocws trwy gydol y radd ar ddod yn ddarllenydd ac yn awdur gofalus a gwybodus sy'n gallu cyfathrebu'n fanwl gywir, yn gain ac yn effeithiol. Byddwch yn dod yn ymchwilydd amryddawn, hynod gyflogadwy sy'n feirniadol annibynnol a chydweithredol.





# Llenyddiaeth Saesneg ac Athroniaeth BA

Sut gall llenyddiaeth a chelf lywio ein dealltwriaeth o'r byd? Beth yw'r ffactorau cymdeithasol sy'n llywio pwy sy'n cael eu clywed a phwy sy'n cael cymryd rhan mewn llenyddiaeth a disgwrs cymdeithasol? Beth yw'r heriau sy'n wynebu cymdeithas heddiw a sut gall llenyddiaeth ac athroniaeth helpu i fynd i'r afael â nhw? Byddwch yn archwilio'r mathau hyn o gwestiynau a llawer mwy, a fydd yn eich arfogi i ddeall, dadansoddi a chyfleu atebion i broblemau cymhleth.

Byddwch astudio llenyddiaeth o wahanol gyfnodau a diwylliannau, ac ar draws yr ystod o brif genres llenyddol. Ni chewch eich cyfyngu i astudio'r gair printiedig: mae'r cysylltiadau rhwng llenyddiaeth a ffilm, celf, hanes, technoleg, iaith, a bywyd bob dydd yn ein hudo, ac mae ein haddysgu yn adlewyrchu'r diddordebau hyn.

Mewn athroniaeth, byddwch yn datblygu sylfaen gadarn mewn athroniaeth iaith, byddwch hefyd yn astudio epistemoleg, athroniaeth meddwl, ac athroniaeth foesol a gwleidyddol, a chewch gyfle i astudio meysydd fel estheteg, athroniaeth ffeministaidd, a ffenomenoleg. Byddwch yn datblygu gwerthfawrogiad dwfn o sut mae'r meysydd hyn o feddwl athronyddol yn cael eu integreiddio, a'u cymwysiadau y tu allan i'r Brifysgol.

# Llemyddiaeth Saesneg gyda Ysgrifennu Creadigol BA

Mae ein rhaglen radd ddeinamig a hyblyg yn eich galluogi i astudio llenyddiaeth o wahanol gyfnodau a diwylliannau, ac ar draws yr ystod o brif genres llenyddol. Ni chewch eich cyfyngu i astudio'r gair printiedig: mae'r cysylltiadau rhwng llenyddiaeth a ffilm, celf, hanes, technoleg, iaith, a bywyd bob dydd yn ein hudo, ac mae ein haddysgu yn adlewyrchu'r diddordebau hyn.

Mae elfen ysgrifennu creadigol y rhaglen yn rhoi'r cyfle i chi symud ymlaen o fodiwlau rhagarweiniol ar ddarllen ac ysgrifennu yn greadigol i waith arbenigol o fewn ffurfiau a genres penodol megis ffuglen, barddoniaeth, ffeithiol greadigol ac ysgrifennu sgriptiau, gan arwain at gynhyrchu casgliad estynedig o waith creadigol.

Trwy gydol y rhaglen, byddwch yn cael eich annog i'ch ymestyn eich hun yn ddeallusol ac yn ddychmygus trwy archwilio llenyddiaeth fel ymarferydd creadigol ac fel beirniad. Byddwch yn canolbwyntio ar ddod yn ddarllenydd ac ysgrifennwr gofalus, sylwgar a gwybodus, yn sensitif i naws iaith ac arddull, ac yn gallu cynhyrchu gwaith creadigol caboledig a soffistigedig.



# Athroniaeth BA

Sut dylech chi fyw eich bywyd ac uniaethu ag eraill? Sut dylen ni drefnu cymdeithas? Pwy a beth ddylech chi ei gredu? Sut mae eich meddwl, ymennydd, corff a'r amgylchedd yn siapio eich meddyliau a'ch teimladau?

Mae ein rhaglen gradd yn ymchwilio i faterion pwysig a chymhleth fel y rhain ac yn eich galluogi i fynd i'r afael â heriau byd-eang mawr heddiw. Ein blaenoriaeth yw datblygu eich sgiliau fel athronydd yn eich rhinwedd eich hun: byddwch yn gwneud athroniaeth, nid dim ond yn dysgu am athroniaeth. Byddwn yn eich cefnogi i ymwneud yn feirniadol ac yn greadigol â phroblemau anodd mewn ffordd feddwl-agored a chydweithredol, gan gynnwys ar bynciau sensitif a dadleuol.

Yn ystod eich astudiaethau, byddwch yn cael y cyfle i ymgysylltu ag ymchwil flaengar a gweithio gyda'ch darlithwyr i ddatblygu mewnwelediad i feysydd astudio newydd cymhleth. Mae ein harbenigedd yn cwmpasu ystod eang o bynciau a thraddodiadau athronyddol. Byddwch yn datblygu sylfaen gadarn ym meysydd canolog athroniaeth, megis moeseg, epistemoleg, ac athroniaeth y meddwl, ond byddwch hefyd yn astudio meysydd fel estheteg, athroniaeth ffeministaidd, a ffenomenoleg.

# Athroniaeth ac Ieithyddiaeth BA

Sut mae eich iaith yn mynegi pwy ydych chi a phwy ydych chi eisiau bod? Sut mae iaith, yr ymennydd, y corff a'r amgylchedd yn siapio'ch meddyliau a'ch teimladau?

Mae ein gradd yn ymchwilio i gwestiynau pwysig fel y rhain o bob un o'n disgyblaethau ac ar eu croestoriadau. Ein blaenoriaeth yw datblygu eich sgiliau fel meddyliwr yn eich rhinwedd eich hun. Byddwn yn eich cefnogi i ymwneud yn feirniadol ac yn greadigol â phroblemau anodd mewn ffordd feddwl agored a chydweithredol, gan gynnwys ar bynciau sensitif a dadleuol.

Yn ystod eich astudiaethau, cewch gyfle i archwilio ystod eang o bynciau a thraddodiadau athronyddol ac ieithyddol.

Mewn athroniaeth, byddwch yn datblygu sylfaen gadarn mewn athroniaeth foesol, byddwch hefyd yn astudio epistemoleg, athroniaeth meddwl, ac athroniaeth wleidyddol, a chewch gyfle i astudio meysydd fel estheteg, athroniaeth ffeministaidd, a ffenomenoleg. Byddwch yn datblygu gwerthfawrogiad dwfn o sut mae'r meysydd hyn o feddwl athronyddol yn cael eu integreiddio, a'u cymwysiadau y tu allan i'r Brifysgol.

# Cyd-anrhydedd

Mae dewis rhaglen cyd-anrhydedd yn gadael i chi gyfuno 2 bwnc rydych chi eisoes yn dwlu arnynt. Rydym yn cynnig sawl rhaglen gyda phynciau ar draws y dyniaethau a'r gwyddorau cymdeithasol.

- Ieithyddiaeth ac Iaith Fodern BA
- Cymraeg ac Ieithyddiaeth BA
- Llenyddiaeth Saesneg a Hanes BA
- Llenyddiaeth Saesneg ac Iaith Fodern BA
- Llenyddiaeth Saesneg, Newyddiaduraeth a'r Cyfryngau BA
- Cerddoriaeth a Llenyddiaeth Saesneg BA
- Cymraeg a Llenyddiaeth Saesneg BA
- Athroniaeth a Gwleidyddiaeth BA
- Astudiaethau Crefyddol ac Athroniaeth BA
- Cymraeg ac Athroniaeth BA






## Sut i ddod o hyd i ni

**Allwedd**

- Ysgol Saesneg, Cyfathrebu a Athroniaeth
- Adeiladau'r Brifysgol a'r GIG
- Preswylfeydd myfyrwyr

## Gwybodaeth Gyfreithiol Bwysig

Mae cynnwys y llyfryn hwn yn ymwneud â'r cylch derbyn myfyrwyr ar gyfer dechrau astudio yn 2025, ac mae'n gywir wrth fynd i'r wasg ym mis Gorffennaf 2024. Fodd bynnag, mae cyfnod hir rhwng argraffu'r llyfryn a phryd caiff ceisiadau eu cyflwyno a'u prosesu gennym. Felly, ewch i'n gwefan: **www.caerdydd.ac.uk** cyn cyflwyno cais rhag ofn bod unrhyw newidiadau i'r cwrs sydd o ddiddordeb i chi neu i gyfleusterau a gwasanaethau eraill a ddisgrifir yma.

Pan fydd gwahaniaeth rhwng cynnwys y llawlyfr hwn a'r wefan, cynnwys y wefan fydd yn cael blaenoriaeth ac yn nodi'r sail yr ydym yn bwriadu darparu ein gwasanaethau ar eich cyfer.

Eich gradd: Mae myfyrwyr a dderbynnir i Brifysgol Caerdydd yn astudio am radd Prifysgol Caerdydd.

Mae'r llyfryn hwn wedi'i argraffu ar bapur o ffynonellau cynaliadwy, yn defnyddio inc o lysiau. Mae'r papur a ddefnyddiwyd i gynhyrchu'r prosbectws a'r broses gynhyrchu wedi'u hardystio gan yr FSC®.

Mae'r argraffwyr hefyd wedi'u hachredu yn ôl safon ISO14001, y safon amgylcheddol a gydnabyddir yn rhyngwladol.

**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.**

**This document is also available in English.**

Mae Prifysgol Caerdydd yn elusen gofrestredig, rhif 1136855

Gellir trefnu i'r prosbectws hwn fod ar gael mewn fformatau gwahanol, gan gynnwys mewn print bras (testun), mewn Braille, ac ar dâp sain / CD.

I ofyn am gopi mewn fformat arall, cysylltwch â Laura Roberts:
Ffôn: 029 2087 4455
Ebost: RobertsL9@caerdydd.ac.uk

CARDIFF UNIVERSITY
PRIFYSGOL CAERDYDD

**I gael gwybod rhagor am Ysgol Saesneg, Cyfathrebu ac Athroniaeth ewch i'n gwefan:**

**Cysylltwch â ni**


Ysgol Saesneg, Cyfathrebu ac Athroniaeth
Adeilad John Percival
Prifysgol Caerdydd
Caerdydd CF10 3EU

Ebost: **encapadmissions@caerdydd.ac.uk**

Ffôn: **029 2087 6049**


**Cadwch mewn cysylltiad**

CardiffUniEnglish Communication Philosophy

@CUEngCommPhilos

ENCAP/0724